

Canllaw i blant sy'n cael eu **Mabwysiadu**



VALE of GLAMORGAN



BRO MORGANNWG

www.bromorgannwg.gov.uk

Canllaw i blant sy'n cael eu Mabwysiadu

1 Beth yw mabwysiadu?

Os nad wyt ti'n gallu byw gartref gyda dy deulu di dy hun, gallet ti gael dy fabwysiadu. Ystyr mabwysiadu yw y byddi di'n tyfu i fyny mewn teulu newydd lle rwyd ti'n ddiogel, yn cael dy garu ac yn cael gofal.

2 Pam fod plant yn cael eu mabwysiadu?

Mae llawer o resymau pam nad yw plant, weithiau, yn gallu byw gartref. Efallai bod dy rieni di'n ei chael hi'n anodd gofalu'n iawn amdanat ti – neu dy gadw di'n ddiogel.



3 Sut beth yw cael dy fabwysiadu?

Byddi di'n byw mewn lle newydd gyda dy deulu newydd. Efallai y bydd gyda ti frodyr a chwiorydd newydd. Mam-gu (Nain) a Tad-cu (Taid), sawl cefnder neu gyfnither, modryb ac ewythr newydd efallai.

4 Sut bobl yw'r rhai sy'n mabwysiadu?

Mae teuluoedd yn amrywio o ran maint, lliw a llun. Efallai mai dim ond un rhiant fydd yno neu efallai y bydd 'na ddau riant. Weithiau byddan nhw'n ddwy wraig, weithiau'n ddau ddyn. Bydd gyda rhai ohonyn nhw blant eu hunain. Efallai y byddan nhw'n mynd allan i weithio neu efallai na fyddan nhw'n gweithio. Mae rhai yn byw yn y dref, mae eraill yn byw yn y wlad.



5 Dwyt ti ddim ar dy ben dy hun – mae llawer o bobl enwog wedi cael eu mabwysiadu!

Shaun Wright-Phillips- pêl-droediwr proffesiynol
Rhona Cameron - comediwraig a chyflwynydd teledu
Nelson Mandela - Arlywydd croenddu cyntaf De Affrica
Moses- arweinydd yn y Beibl
David Dickinson - o'r rhaglen Deledu 'Bargain Hunt'

Ac roedd Superman wedi'i fabwysiadu hefyd!

6 Pwy fydd yn fy helpu i gael fy mabwysiadu?

Mae gweithiwr cymdeithasol yn rhywun sy'n helpu plant a'u teuluoedd pan fyddan nhw'n cael problemau. Maen nhw yno i dy helpu di, er mwyn gwneud yn siŵr dy fod ti'n ddiogel ac yn hapus, ac i helpu dod o hyd i deuluoedd newydd i blant sydd angen hynny.

Mae Gwarcheidwad Plant yn rhywun sy'n gwrando ar dy deimladau ynglŷn â beth sy'n mynd ymlaen ac yn gwneud yn siŵr fod pobl yn gwrando arnat ti.



7 Gyda phwy y galla' i siarad am fabwysiadu?

Gwaith dy weithiwr cymdeithasol neu'r Gwarcheidwad Plant yw gwneud yn siŵr dy fod:

- Yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen drwy'r amser
- Bod gyda ti rywun y galli di siarad gydag e/gyda hi am beth sy'n digwydd
- Yn cael cyswllt gyda dy fam a dy dad os wyt ti eisiau ac os yw'n ddiogel i ti wneud hynny
- Yn cael cyswllt gydag unrhyw un arall sy'n bwysig i ti.

8 Pwy fydd yn penderfynu fy mod i'n mynd i gael fy mabwysiadu?

Mae'r barnwr yn eistedd yn y Llys a fe/hi sy'n penderfynu a ddylet ti neu na ddylet ti gael dy fabwysiadu. Bydd y barnwr yn gwrando ar dy rieni, dy weithiwr cymdeithasol a dy Warcheidwad Plant.



Defnyddia'r lle gwag yma i ysgrifennu unrhyw beth sy'n dy boeni neu unrhyw gwestiynau rwy't ti eisiau eu trafod gyda dy weithiwr cymdeithasol neu'r Gwarcheidwad Plant.

9 Pwy sy'n dewis fy nheulu newydd?

Mae gweithwyr cymdeithasol bob amser yn chwilio am bobl sy' eisiau mabwysiadu plant. Bydd dy weithiwr cymdeithasol yn siarad â ti am y math o deulu rwyd ti ei eisiau a byddan nhw'n cymryd gofal mawr wrth ddewis teulu sy'n iawn ar dy gyfer di.

Hoffet ti wneud rhestr o bethau i siarad amdanyn nhw gyda dy weithiwr cymdeithasol?

10 Fydda' i'n gallu cwrdd â fy nheulu newydd cyn symud i fyw gyda nhw'?

Byddi! Byddi di'n cwrdd â dy deulu newydd ac yn cael y cyfle i ddod i'w hadnabod, ac os byddi di'n eu hoffi nhw, galli di fynd i fyw gyda nhw yn eu cartref.

11 Ond beth am fy nheulu maeth?

Byddan nhw'n helpu i dy baratoi di ar gyfer dy deulu newydd drwy siarad â ti amdany'n nhw, dangos ffotograffau i ti a byddan nhw'n dy helpu i feddwl sut fywyd fydd gyda ti pan fyddi di'n byw gyda nhw.

Bydd teuluoedd maeth yn aml yn cadw mewn cyswllt gyda'r plant y buon nhw'n gofalu amdany'n nhw.



12 Fydda' i'n dal i allu cadw mewn cyswllt â phobl sy'n arbennig i fi?

Bydd dy weithiwr cymdeithasol yn siarad yn ofalus iawn gyda ti am hyn.

Pan fyddi di wedi dy fabwysiadu, 'dyw hynny ddim yn golygu dy fod yn anghofio dy deulu biolegol. Efallai bod gyda ti atgofion am dy fam/dad/chwiorydd/brodyr/mam-gu (nain) a tad-cu (taid) biolegol neu dy ofalwyr maeth fuodd yn gofalu amdanat ti.


Bydd dy weithiwr cymdeithasol yn siarad â ti am beth sy'n bwysig i ti. Efallai y gall y rhieni sy'n dy fabwysiadu ysgrifennu llythyr bob yn hyn a hyn er mwyn gadael i bobl sy' wedi bod yn rhan o dy orffennol wybod sut wyt ti, ac efallai y byddan nhw'n cael llythyr yn ôl. Y Gwasanaeth Bocs Llythyrau yw'r enw am hyn.



13 Sut fydda' i'n cael fy mabwysiadu gan fy nheulu newydd?

Pan fyddi di a dy deulu newydd yn barod, bydd yr holl wybodaeth yn cael ei hanfon i'r Llys. Dyma'r lle y bydd y barnwr yn gwneud y penderfyniad terfynol dy fod yn cael dy fabwysiadu gan dy deulu newydd. Byddan nhw eisiau gwneud yn siŵr mai dyma'r penderfyniad gorau ar dy gyfer di.

Sut mae barnwyr yn edrych? Wyt ti wedi gweld un ar y teledu? Allet ti dynnu llun un yn y fan hon?



14 Beth os ydw i'n poeni ychydig am gael fy mabwysiadu?

Dylet ti siarad â dy weithiwr cymdeithasol. Bydd e/hi yn gwrando ar dy resymau ac yn esbonio sut wyt ti'n teimlo wrth y barnwr.



15 Efallai yr hoffet ti ddarllen un o'r storïau hyn gyda dy ofalwr maeth neu weithiwr cymdeithasol?

- 'Finding a family for Tommy' gan Rebecca Daniels
- 'Dennis Duckling' gan Barbara Orritt
- 'Chester and Daisy move on' gan Angela Lidster
- 'Nutmeg gets adopted' gan Judith Foxan
- 'Nutmeg gets a letter' gan Judith Foxan
- 'Belonging doesn't mean forgetting' gan BAAF
- 'Katie Kitten gets adopted' gan Catherine Adair

16 Pwy fydd yn helpu os nad ydw i'n hapus?

Os wyt ti'n anhapus, yna mae'n bwysig siarad â rhywun fydd yn gallu helpu rhoi trefn ar bethau. Os wyt ti eisiau cwyno am rywbeth, yna gofyn i dy weithiwr cymdeithasol am gopi o Daflen gwynion Bro Morgannwg i blant.

neu

- cysyllta gyda Swyddog Cwynion Bro Morgannwg, Amanda Green ar 01446 704 800

neu

- ebost agreeen@valeofglamorgan.gov.uk

Galli di ysgrifennu hefyd at

- Neu Comisiynydd Plant Cymru -
Tŷ Ystumllwynarth
Ffordd Phoenix
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FS

neu

- ffoniwch 01792 765 600

neu

- ebost post@childcomwales.org.uk

Bydd y bobl hyn yn gwrando ar dy gwyn ac yn dy helpu i benderfynu a yw dy gwyn wedi ei thrin yn deg gan y gwasanaethau cymdeithasol a bod y gofal rwyf ti'n ei dderbyn yn cyrraedd y safon.

17 Nes ymlaen...

Ar ôl i ti gael dy fabwysiadu.

Bydd yna adegau efallai pan fydd gyda ti gwestiynau neu bryderon. Gallet ti neu'r teulu fydd yn dy fabwysiadu gysylltu â'r adran gwasanaethau plant i ofyn am help.

- Galli di gysylltu â'r 'Tîm Derbyn a Chefnogi Teuluoedd' ar 01446 725 202

neu gallet ysgrifennu at

- Tîm Derbyn a Chefnogi Teuluoedd
Tŷ Haydock
I Ffordd Holton
Y Barri
CF63 1HA

Mae gyda'r gwasanaeth mabwysiadu hefyd berson sy'n cael ei alw'n Gynghorydd Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu. Bydd e/hi yn trefnu i ddod i dy weld er mwyn gweld beth yw'r broblem. Cymorth mabwysiadu yw'r enw am hyn.

- Ffoniwch 02920 350 950

neu gallet ysgrifennu at

- Gynghorydd Gwasanaethau
Cymorth Mabwysiadu
14 Cilgant Albert
Penarth
CF64 1DA

